# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 3 Chwefror 2020

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6362

SeneddMCD@cynulliad.cymru

## - Atodiad 1

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

**5.2 Llythyr gan y Prif Weinidog: Rhaglen Offerynnau Statudol (OS) Ymadael â'r UE**

(Tudalennau 1 - 3)

**CLA(5)-05-20 - Papur 12** - Llythyr gan y Prif Weinidog, 30 Ionawr 2020

**Dogfennau atodol:**

CLA(5)-05-20 - Papur 12

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/FM/0135/20

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

SeneddCLA@assembly.wales

30 Ionawr 2020

Annwyl Mick

Ysgrifennaf atoch i roi'r diweddaraf ichi ar y datblygiadau mewn perthynas â rhaglen Offerynnau Statudol (OS) Ymadael â'r UE gan fod Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 (Deddf 2020) yn awr wedi dod yn gyfraith.

Wrth baratoi ar gyfer ymadael â'r UE heb gytundeb, gwnaeth Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig nifer mawr o OSau cywiro er mwyn sicrhau y byddai llyfr statud y DU yn gallu parhau i weithredu pan na fyddai'r DU yn aelod o'r UE mwyach, a phan na fyddai cyfraith yr UE yn gymwys mwyach i'r DU, nac ynddi. Gwnaed yr OSau hyn yn bennaf o dan bwerau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mewn ychydig o achosion lle na fyddai pwerau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn gwireddu'r canlyniad a geisiwyd, cafodd OSau eu gwneud o dan bwerau eraill hefyd. Disgwylir i'r OSau hyn ddod i rym ar y diwrnod ymadael.

Ymhlith pethau eraill, mae Deddf 2020 yn darparu er mwyn i'r rhan fwyaf o gyfraith yr UE barhau'n gymwys yn y DU hyd at ddiwedd y cyfnod pontio. Felly, er mwyn osgoi sefyllfa lle na fyddai llyfrau statud y DU yn gyson â gofynion cyfraith yr UE fel y'i cymhwysir drwy rinwedd y Cytundeb Ymadael, bydd angen gohirio'r OSau Ymadael â'r UE tan ddiwedd y cyfnod pontio.

Bydd y gohiriad hwn yn cael ei gyflawni drwy baragraff 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2020. Mae'n cael yr effaith o ddiwygio'r dyddiad y daw'r OSau hyn i rym, ond nid yn destunol, o'r adeg yn union cyn y diwrnod ymadael, y diwrnod ymadael ei hun, neu unrhyw adeg wedi'r diwrnod ymadael i'r adeg yn union cyn diwedd y cyfnod gweithredu, diwedd y cyfnod gweithredu ei hun, neu unrhyw adeg wedi hynny, yn unol â'r amgylchiadau penodol. Caiff yr adeg y daw pob OS Ymadael â'r UE i rym ei gohirio, ni waeth pa bwerau y cawsant eu gwneud oddi tanynt, oni bai eu bod wedi cael eu heithrio mewn rheoliadau.

Mae'r Cytundeb Ymadael yn darparu y bydd y rhan fwyaf o gyfraith yr UE, ond nid holl gyfraith yr UE, yn parhau'n gymwys yn y DU hyd at ddiwedd y cyfnod pontio. Ni fydd gan y DU gynrychiolaeth wleidyddol ar lefel yr UE bellach a golyga hyn y bydd rhaid i rai OSau ar

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gyfer Ymadael â’r UE, er enghraifft, ddod i rym ar y diwrnod ymadael oherwydd ni fydd ASEau i gynrychioli’r DU mwyach.

Caiff hyn ei gyflawni, ar gyfer Cymru, drwy reoliadau sy’n rhagnodi pa ddarpariaethau o’r OSau Ymadael â’r UE fydd wedi’u heithrio o’r gohiriad ac a fydd yn dod i rym ar y diwrnod ymadael. Felly, gan ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf 2020, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (Datgymhwyso Gohirio Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2020. Mae’r OS hwn yn eithrio Rheoliadau Etholiadau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019 o’r gohiriad eang y darperir ar ei gyfer gan baragraff 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2020.

Mae Deddf 2020 yn gwneud darpariaeth er mwyn i gyfraith yr UE gael ei dargadw fel y saif ar ddiwedd y cyfnod pontio. Caiff OSau Ymadael â’r UE eu drafftio i adlewyrchu cyfraith yr UE ar y diwrnod ymadael. Mae’n debygol y bydd datblygiadau yng nghyfraith yr UE o’r cyfnod hwn hyd at ddiwedd y cyfnod pontio. Os digwydd hyn, bydd rhagor o OSau yn cael eu gwneud yn ystod y cyfnod pontio er mwyn sicrhau bod llyfr statud y DU yn adlewyrchu’n gywir y gyfraith yr UE a ddargedwir ar 31 Rhagfyr 2020. Nid ydym yn rhagweld y bydd angen llawer iawn o OSau i gyflawni hyn, a byddwn yn parhau i roi’r diweddaraf ichi ynglŷn â’r cynnydd yn y maes hwn.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi amryw o Filiau ar gyfer y cyfnod pontio, a fyddai’n sefydlu dulliau newydd ar gyfer y DU y tu allan i’r UE ar faterion fel mewnfudo. Gallai’r Biliau hyn, a chanlyniad y negodiadau ar y berthynas rhwng y DU a’r UE yn y dyfodol ddisodli’r OSau Ymadael â’r UE yn y meysydd hyn, ac felly byddai’r OSau perthnasol yn cael eu dirymu neu eu diwygio cyn iddynt ddod i rym.

Cofion gorau



**MARK DRAKEFORD**